







# GWASANAETH IEUENCTID CASNEWYDD





Caiff Gwasanaeth Ieuenctid a Chwarae Casnewydd ei redeg a'i reoli'n dda, ac mae'n datblygu darpariaeth newydd. Ceir darpariaeth graidd gwasanaeth ieuenctid a chwarae, a darperir gwasanaethau gan sefydliadau partner.

## Beth allwch chi ei ddisgwyl gan Wasanaeth Ieuenctid a Chwarae Casnewydd:

-  Clybiau ieuenctid mynediad agored lle mae'r gweithwyr ieuenctid yn darparu gweithgareddau wedi'u dewis gennych chi. Mae clybiau chwarae i blant ar gael, hefyd.
-  Clybiau sy'n croesawu pob person ifanc hyd yn oed os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi.
-  Gweithwyr ieuenctid ymroddgar, sydd wedi cael hyfforddiant da, sy'n deall eich anghenion ac yn eich cefnogi.
-  Mae darpariaeth arbenigol fel cymorth os ydych chi'n cael trafferth yn yr ysgol, yn eich helpu i ddefnyddio'r Gymraeg a chymryd rhan yng nghynllun gwobr agored Dug Caeredin.
-  Cyngor Ieuenctid Dinas Casnewydd lle gwrandewir ar eich barn, a byddwch yn cael cyfle i ddylanwadu ar wasanaethau lleol. Bydd hyn hefyd yn rhoi profiad i chi mewn sut mae democratiaeth yn gweithio.
-  Adeilad newydd sydd ar fin agor yng nghanol y ddinas lle bydd mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc hŷn, fel cawodydd, clwb gwaith cartref, clinig iechyd a chyfle i gael cyngor diduedd.

## Beth na fyddwch chi yn ei gael, efallai:

### (Efallai bod y cyfleoedd hyn yn cael eu cynnig gan sefydliadau gwaith ieuenctid eraill yng Nghasnewydd)

-  Gweithwyr ieuenctid a fydd yn cyfarfod â chi, ac yn eich cefnogi ar y strydoedd ym mhob ardal (gwaith ieuenctid datgysylltiedig).
-  Cyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol bob tro.
-  Ystod eang o gyfleoedd addysg anffurfiol.
-  Cyfle i fanteisio ar gyfleoedd fel dawn, celf, cerddoriaeth a drama.

**Sganiwch!**

